Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cynllun Dirprwyo

## Diben a chwmpas

1 Mae’r Cynllun Dirprwyo hwn yn amlinellu’n ffurfiol ddosbarthiad yr awdurdod i wneud penderfyniadau yn y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Mae’n nodi’r materion a gedwir yn ôl i’r Bwrdd a’r Comisiwn yn unig, a hefyd y materion y gellir bwrw ymlaen â hwy ar ran y Bwrdd dan awdurdod a ddirprwywyd i’r Cadeirydd ac i’r Prif Weithredwr.

## Ynglŷn â’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

2 Sefydlwyd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (enw brand ‘Medr’) dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Corff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru ydyw, sy’n gweithredu ar hyd braich oddi wrth y Llywodraeth, ac sy’n gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Goruchwylir Medr gan Fwrdd sy’n cynnwys uchafswm o ddau aelod ar bymtheg, gan gynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd, y Prif Weithredwr, a hyd at bedwar ar ddeg o Aelodau Cyffredin. Ceir hefyd o leiaf bedwar Aelod Cyswllt o’r Bwrdd sy’n cynnwys o leiaf ddau gynrychiolydd o’r gweithlu addysg drydyddol; un person i gynrychioli dysgwyr mewn addysg drydyddol; ac un aelod o blith staff Medr.

3 O dan delerau ei Ddogfen Fframwaith gyda Llywodraeth Cymru, ac Atodlen 1 y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil, gall Medr ddirprwyo’i swyddogaethau i aelod neu aelodau unigol o’r Bwrdd, aelodau o’i staff, neu i unrhyw un o’r pwyllgorau a sefydlwyd gan y Bwrdd, gan gynnwys unrhyw gydbwyllgorau.

## Egwyddorion awdurdod dirprwyedig

4 Dylai dirprwyo leihau faint o benderfyniadau manwl y mae angen i’r Bwrdd eu gwneud, gan ei alluogi i ganolbwyntio ar faterion polisi strategol, materion pwysig o sylwedd ac arwyddocâd, ac ar oruchwylio gweithgareddau’r Bwrdd gan ddirprwyo baich gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd i’r Weithrediaeth.

5 Dylai dirprwyo fod o fewn fframwaith polisi a chyllidebol y cytunwyd arno gan y Bwrdd.

6 Dylai dirprwyo cyfrifoldeb am faterion ariannol fod yn amodol ar derfynau ariannol priodol a lywodraethir gan berthnasedd y symiau mewn perthynas â chyllideb y Bwrdd ar y cyfan.

7 Pan ddefnyddir awdurdod dirprwyedig, dylid adrodd ar hynny wrth y cyfarfod cyntaf gan y Bwrdd sydd ar gael.

8 Rhaid i achosion o ddefnyddio awdurdod dirprwyedig fel y’i diffinnir yn y Cynllun hwn fod yn gyson â gofynion y Ddogfen Fframwaith rhwng Medr a Llywodraeth

Cymru, gan gynnwys y trefniadau dirprwyo penodol a nodir yn y Ddogfen Fframwaith (*gweler yr Atodiad*).

## Y Bwrdd

9 Mae'r cyfrifoldeb yn y pen draw am y materion canlynol yn cael ei gadw'n ôl i'r Bwrdd yn unig ac ni ellir ei ddirprwyo:

i) Sefydlu, mynd ar drywydd a monitro perfformiad yn erbyn nodau ac amcanion strategol Medr, gan gynnwys cymeradwyo ei gynllun strategol a'i gynlluniau busnes/ gweithredol blynyddol.

ii) Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ddarparu sicrwydd ynghylch rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.

iii) Cymeradwyo llinellau'r gyllideb flynyddol a dyraniadau prif ffrwd cyllid grant i bob darparwr ôl-16 a gyllidir.

iv) Cymeradwyo adroddiad blynyddol a chyfrifon Medr i'w cyflwyno'n derfynol i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

v) Cytuno i sefydlu a phennu cylchoedd gorchwyl ar gyfer pwyllgorau'r Bwrdd, ei grwpiau gorchwyl a gorffen, neu is-grwpiau eraill sy'n adrodd wrth y Bwrdd.

vi) Cytuno a gwneud diwygiadau neu newidiadau i brosesau a gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Bwrdd, gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r canlynol:

- *Rheolau Sefydlog ar gyfer Cynnal Busnes y Bwrdd;*
- *Rheolau Sefydlog Pwyllgorau;*
- *Rheoliadau Ariannol;*
- *Cynllun Dirprwyo;*
- *Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Bwrdd.*

vii) Penodi, gyda chymeradwyaeth rhag blaen gan y Gweinidog, Brif Weithredwr yn unol â gofynion y Ddogfen Fframwaith [*D.S. yn unol â pharagraff 5.3 yn y Ddogfen Fframwaith, cafodd Prif Weithredwr cyntaf Medr ei benodi gan y Gweinidog*]

viii) Penodi Ysgrifennydd y Bwrdd.

ix) Cytuno i fwrw ymlaen â cham gwaharddeb y Broses Ymyrryd Cydymffurfio ac Ad-dalu, y Broses Ymyrryd mewn Perthynas â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Ffioedd a Mynediad Cymeradwy, y Broses Ymyrryd mewn Perthynas ag Ansawdd Annigonol, neu'r Broses Ymyrryd mewn Perthynas â Methiant i Gydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol.

x) Cymeradwyo neu wrthod cynlluniau ffioedd a mynediad (heb gynnwys amrywiadau i gynlluniau presennol nad ydynt yn addasu'n sylweddol y sail berthnasol y cymeradwywyd cynllun arni'n wreiddiol, a ddirprwyir i'r Prif Weithredwr).

xi) Cymeradwyo adroddiad blynyddol Medr i Weinidogion Cymru ar sut y mae wedi arfer ei swyddogaethau a nodir yn Neddf AU (Cymru) 2015 a'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), Atodlen 1 paragraff 16

xii) Cymeradwyo trwy ohebiaeth eitemau nad yw'r Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr yn gallu gweithredu arnynt dan awdurdod dirprwyedig, ac yr ystyrir bod cymaint o frys i'w cymeradwyo fel na allant aros tan un o gyfarfodydd y Bwrdd. Byddir yn adrodd wrth gyfarfod nesaf y Bwrdd ar bob cymeradwyaeth o'r fath.

xiii) Dirprwyo unrhyw un neu rai o'i swyddogaethau i unrhyw berson a ragnodir gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd yn ddiweddarach.

xiv) Pa bynnag faterion eraill a bennir gan y Bwrdd o bryd i'w gilydd.

## Cadeirydd

10 Bydd cyfathrebu rhwng y Bwrdd a'r Gweinidog yn digwydd fel arfer trwy'r Cadeirydd, a fydd yn sicrhau bod aelodau eraill y Bwrdd yn cael eu hysbysu ynghylch yr holl gyfathrebiadau o'r fath. Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb penodol hefyd ynghylch cynrychioli barn y Bwrdd yng ngŵydd y cyhoedd.

11 Bydd gan y Cadeirydd awdurdod dirprwyedig i awdurdodi:

(a) blaendaliadau grant o ddyraniadau blynyddoedd academaidd diweddarach hyd at £5m y dyraniad;

(b) taliadau grantiau ychwanegol, anad-daladwy hyd at £5m y dyraniad.

12 Dylai unrhyw gamau gweithredu o'r fath a gymerir gan y Cadeirydd dan awdurdod dirprwyedig fod yn amodol ar ofynion Atodiad C y Ddogfen Fframwaith a dylid adrodd arnynt er gwybodaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

## Prif Weithredwr

13 Mae'r Prif Weithredwr wedi'i awdurdodi i arfer holl swyddogaethau'r Bwrdd nad ydynt wedi'u nodi'n benodol yn y Cynllun Dirprwyo hwn fel rhai a gedwir yn ôl ar gyfer penderfyniad gan y Bwrdd yn unig; rhai a ddirprwywyd i Gadeirydd y Bwrdd; neu rai a ddirprwywyd fel arall i un o bwyllgorau'r Bwrdd, yn amodol ar y canlynol:

- Bod y gwariant a'r incwm o fewn y gyllideb gymeradwy neu gyda chymeradwyaeth rhag blaen gan y Bwrdd.
- Cydymffurfio â Rheolau Sefydlog y Bwrdd a'r Rheoliadau Ariannol.
- Cysondeb â'r nodau ac amcanion yng nghynllun strategol a chynlluniau busnes/gweithredol blynyddol Medr, a'r fframwaith polisi ar y cyfan a gymeradwywyd gan y Bwrdd.
- Cydymffurfio â'r Ddogfen Fframwaith

- Y gofynion cymeradwyo a'r terfynau dirprwyo a bennwyd gan Lywodraeth Cymru fel a nodir yn Atodiad C wrth y Ddogfen Fframwaith ac yn yr Atodiad wrth y Cynllun hwn.

14 Ni fydd y Prif Weithredwr ond yn arfer swyddogaethau o'r fath lle mae o'r farn bod cymaint o frys i ymdrin â'r mater fel na all aros tan un o gyfarfodydd y Bwrdd, neu lle mae'n fach o ran cwmpas a graddfa. Byddir yn adrodd wrth gyfarfod nesaf y Bwrdd ar unrhyw gamau gweithredu o'r fath a gymerwyd gan y Prif Weithredwr dan yr awdurdod dirprwyedig hwn.

15 Mae'r Prif Weithredwr wedi'i awdurdodi i ddirprwyo pwerau i aelodau eraill o staff yn Medr, o fewn terfynau awdurdod dirprwyedig y Prif Weithredwr ei hun, i arfer yr holl bwerau a ddirprwywyd ar y cyd, ac i fod â goruchwyliaeth gyffredinol ar arfer pwerau dirprwyedig.

16 Nid yw'r Cynllun Dirprwyo hwn yn lleihau cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu mewn unrhyw ffordd.

## Darpariaeth Arbennig

17 Os collir y Prif Weithredwr yn sydyn neu os yw'n profi llesgedd hirdymor, bydd yr holl ddarpariaethau cyffredinol a threfniadau dirprwyo penodol mewn perthynas â'r Prif Weithredwr dan y Cynllun hwn yn trosglwyddo i'r Prif Swyddog Gweithredu. Os nad yw'r Prif Swyddog Gweithredu'n gallu ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn, y Cadeirydd fydd yn penderfynu pa uwch swyddog arall ddylai ei ysgwyddo yn ei le.

Adolygwyd a diweddarwyd: Ionawr 2025

Gofynion cymeradwyo a therfynau dirprwyo fel y'u nodir yn Atodiad C wrth y *Ddogfen Fframwaith* rhwng Llywodraeth Cymru a Medr.

| Pwnc | Terfyn Dirprwyo |
|---|---|
| Penodi Prif Weithredwr | Cymeradwyaeth gan y Gweinidog |
| Cydnabyddiaeth ariannol a thelerau ac amodau staff | Mae gofyn cael cymeradwyaeth y Gweinidog i ddiwygiadau i delerau ac amodau ar y cyfan |
| Trefniadau pensiwn a thalu tâl colli swydd neu iawndal (gan gynnwys trwy Gynlluniau Gwirfoddol a Gorfodol) | Cymeradwyaeth y Gweinidog (gweler hefyd y canllawiau ychwanegol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024 gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus) |
| Cynllun Strategol (Sy'n ofynnol dan Adran 14 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 | Cymeradwyaeth y Gweinidog |
| Is-gwmnïau a mentrau ar y cyd | Cymeradwyaeth y Tîm Partneriaeth |
| Trosglwyddiad y tu allan i derfynau penodedig | Cymeradwyaeth y Tîm Partneriaeth |
| Cynigion sy'n newydd, yn ddadleuol, neu'n dwyn ôl-effeithiau | Cymeradwyaeth y Tîm Partneriaeth |
| Unrhyw fenthyciad a gymerir, benthyciad a roddir, gwarantau, indemniadau, neu fuddsoddiad | Cymeradwyaeth y Gweinidog |
| Prosiectau cyfalaf (nad ydynt yn rhai TG) | £100,000 y prosiect |
| Prosiectau TG | £100,000 y prosiect |
| Contractau ymgynghoriaeth | Yn unol â rheolau a gofynion y CADY |
| Gwyriadau tendr sengl | £50,000 |
| Rhoddion, lletygarwch, gwobrau ac ati | Yn unol â rheolau a gofynion y CADY |
| Nawdd | £20,000 y flwyddyn |
| Colledion a thaliadau arbennig | £50,000 y flwyddyn (oni bai eu bod yn Newydd a Dadleuol, gweler uchod) |
| Cadw derbyniadau y tu hwnt i'r terfyn a nodir yn y llythyr cylch gwaith | Cymeradwyaeth y Tîm Partneriaeth |

| **Pwnc** | **Terfyn Dirprwyo** |
|---|---|
| Cario drosodd | Yn ystod y flwyddyn – 4% o gyfanswm y gyllideb gros flynyddol<br><br>Ar ddiwedd y flwyddyn – 2% o gyfanswm y gyllideb gros flynyddol |